# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | David Lewis | Adran Etholiadol: | Gorseinon |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi parhau i weithio'n galed wrth gynrychioli pobl Gorseinon. Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis yn swyddfa'r etholaeth, 9 Heol Pontarddulais. Yn ystod gaeaf 2015/16, roeddwn yn llunio cylchlythyr o'r enw Gorseinon Matters ac yn ei ddosbarthu gyda'r daflen o'r enw Swansea Matters. Eleni, rwyf wedi gweithio i ddarparu blodau gwyllt ychwanegol ac wedi cynyddu nifer y basgedi crog yng Nghlwb y Gweithwyr, Llwchwr (y Bug) a Chlwb y Gweithwyr, Gorseinon (Clwb Heol Brighton). Rwyf wedi gweithio gyda'r clybiau i ddarparu diffibrilwyr calon ym mhob un o'r clybiau, gan ddarparu adnodd achub bywyd i'n cymuned. Gall preswylwyr Gorseinon gysylltu â fi ar unrhyw adeg trwy lythyr, 46 Heol Cecil, Gorseinon SA4 4BY, e-bostio Cyng.David.Lewis@abertawe.gov.uk neu ffonio 01792 894929. Os nad wyf gartref, gellir gadael neges a byddaf yn ffonio'n ôl o fewn 48 awr. O ganlyniad i'r cysylltiadau hyn, rwyf wedi ymdrin â llawer o faterion ar ran preswylwyr, gan gynnwys tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, parcio, paentio llinellau a sbwriel.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 2 | / | 6 | 33 | % |
| Y Cyngor | 10 | / | 18 | 56 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 3 | / | 13 | 23 | % |
| **CYFFREDINOL** | **21** | **/** | **45** | 47 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy | 2 | / | 9 | 22 | % |
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | 2 | / | 9 | 22 | % |
| | | | | | |
| **CYFFREDINOL** | **4** | **/** | **18** | **22** | **%** |

Roedd fy mhresenoldeb yn isel y llynedd yn rhannol oherwydd marwolaeth fy nhad ym mis Tachwedd.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

- Aelod o Gyngor Tref Gorseinon ers mis Mai 2008.
- Llywodraethwr yr awdurdod addysg lleol ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon ers mis Mai 2012
- Aelod o Grŵp Llafur Abertawe.
- Euthum i gyfarfodydd chwarterol Swyddfa Dai Ranbarthol Gorseinon, arolygydd yr heddlu a'i swyddogion, cyfarfodydd Siambr Masnach Gorseinon.

- Aelod o is-bwyllgorau canlynol Cyngor Tref Gorseinon: Cynllunio, Personél, Gwefan, Dyfarnu Cabanau Newydd.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

**Ysgol Gynradd Gorseinon -** Ar ôl ymgyrch hir a llwyddiannus, roedd yn bleser mawr gennyf y cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio Abertawe gynlluniau ym mis Rhagfyr ar gyfer ysgol gynradd ar gyfer yr 21ain ganrif a pharc gwell at y diben ym Mharc y Werin, gan wella'r trefniadau addysg a chwarae i'n plant ar gyfer llawer o flynyddoedd i ddod. Ar ben hynny, trefnais i gyngor yr ysgol ymweld â Neuadd y Ddinas yn Abertawe ar gyfer trafodaeth fach a thaith.

**Parc Sglefyrddio Gorseinon -** Rwyf yn parhau i weithio gyda swyddogion, preswylwyr, busnesau, cyngor y dref a phobl ifanc i ddod â pharc sglefyrddio i Barc Melin Mynach.

Gweithio gyda'r DVLA – Trefnais ddiwrnod maes i reolwyr y DVLA i fynd i Neuadd y Ddinas.

**Cyfeillion Parciau Gorseinon** – Rwyf wedi gweithio gyda chyngor y dref i ddarparu grant i gefnogi Pwyllgor Parc y Werin. Rwyf wedi gweithio gydag aelodau'r Cabinet ar ddarparu arweiniad ar gyfer mentrau 'cyfeillion' newydd. **Blodau Gwyllt** – Rwyf wedi parhau i weithio gyda Chyngor Abertawe a Chyngor Gorseinon i sicrhau bod yr ymgyrch blodau gwyllt lwyddiannus yn parhau trwy gydol y dref a'r parciau. **Materion Priffyrdd** – Cyfarfûm â swyddogion priffyrdd yn rheolaidd i fynd i'r afael â materion diogelwch a pharcio. Rwyf wedi gosod nifer o gyrbau isel a llinellau diogelwch trwy gydol y dref. Rwy'n parhau â'r ymgyrch i leihau amseroedd aros wrth oleuadau traffig Gorseinon. **Digwyddiadau Gorseinon -** Rwy'n parhau i gefnogi 2 ddigwyddiad mawr Gorseinon – Gorymdaith y Nadolig Gorseinon a Charnifal Gorseinon. Cynhelir y digwyddiadau blynyddol hyn yn yr haf a'r gaeaf ac maent yn rhoi hwb mawr i'r dref ac yn helpu i gadw ysbryd y gymuned yn gryf. Rwy'n hynod falch o'r holl bobl sy'n cymryd rhan, sy'n rhoi llawer o oriau o'u hamser i sicrhau bod y digwyddiadau'n parhau i fod yn llwyddiant. **Meithrin a Gwella Perthnasoedd Cryfion -** Rwyf wedi bod yn gweithio i sicrhau bod perthnasoedd cryfion yn cael eu meithrin a'u cynnal yng Nghyngor Abertawe, Cyngor Tref Gorseinon, Siambr Masnach Gorseinon ac Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon. **Cydweithio gyda'r heddlu** – Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag arolygwr yr heddlu ar gyfer Gorseinon. **Cyfadeiladau Ymddeol** – Cyn amled ag y gallaf, rwy'n cyfarfod â phreswylwyr Llys Gwalia, Llys y Werin, Llys Einon a Chwrt Hywel, gan wrando ar bryderon a mynd i'r afael â materion (lle y bo modd). **Clwb Llun Porth Gorseinon -** Rwy'n parhau i gefnogi'r elusen hon ac wedi helpu i sicrhau rhagor o grantiau mawr eu hangen eleni.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
19/04/2016 - A.106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n parhau i fod yn ymroddedig i gynrychioli pobl Gorseinon ac yn gweithio gyda'm cydweithwyr yng Nghyngor Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon i hyrwyddo Gorseinon. Mae'n bleser gwirioneddol gweld ein Stryd Fawr mor brysur ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda datblygwyr, wrth i ni barhau i wella'r dref o ran agweddau preswyl, addysgol, busnes, trafnidiaeth a hamdden.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 26.05.2016 |